Ministry of Justice

# Cynnig i ddiwygio:

## Cyflwyno Ffioedd yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 29 Ionawr 2024

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 25 Mawrth 2024

Ministry of Justice

## Cynnig i ddiwygio:

# Cyflwyno Ffioedd yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth

**Ymgynghoriad wedi’i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Anelir yr ymgynghoriad hwn at ddefnyddwyr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori a phawb sydd â diddordeb yn y system llysoedd a thribiwnlysoedd a'r ffioedd cysylltiedig. |
| **Hyd:** | O 29/01/24 i 25/03/24 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Fees Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 25/03/24 at:<br><br>Fees Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog** **2**

**Yr achos dros gyflwyno ffioedd yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth** **4**

Cyflwyniad 4

**Y Cynnig** **10**

Crynodeb o’r Cynnig 11

Y rhesymgeg dros y ffioedd arfaethedig cyffredinol 14

Effaith y newidiadau 17

Y cyfnod ymgynghori 18

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg** **19**

Asesiad Effaith 19

Cydraddoldeb 19

Yr Iaith Gymraeg 20

**Holiadur** **21**

**Amdanoch chi** **23**

**Manylion cyswllt / Sut i ymateb** **24**

Cwynion neu sylwadau 24

Copïau ychwanegol 24

Cyhoeddi ymateb 24

Grwpiau cynrychioliadol 24

Cyfrinachedd 24

**Egwyddorion ymgynghori** **26**

# Rhagair y Gweinidog

Mae system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol yn sail i reolaeth y gyfraith, yn cynnal ac yn gorfodi hawliau a rhwymedigaethau, ac o fudd i gymdeithas gyfan. Rwy’n falch o’r system gyfiawnder o’r radd flaenaf y mae ein llysoedd a’n tribiwnlysoedd yn parhau i’w darparu. Dyma wasanaeth cyhoeddus hanfodol, y mae miliynau o bobl ledled y wlad yn dibynnu arno i gyflawni’r canlyniadau cyfiawnder sy’n bwysig iddynt.

Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, sy’n darparu gwasanaethau hanfodol i unigolion sy’n mynd drwy gyfnodau anodd ac ansefydlog yn eu bywydau. P’un ai a yw anghydfod yn codi oherwydd gwahaniaethu honedig, cyflog heb ei dalu neu dâl gwyliau sydd heb ei dalu, mae’r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn cynnig fforwm hollbwysig i gyflogwyr a gweithwyr ddatrys eu hanghydfodau drwy ganlyniadau cyfiawn a phenodol. Bydd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn parhau i chwarae rhan hanfodol ym mywyd ein gwlad wrth i ni fynd i'r afael ag ôl-effeithiau pandemig byd-eang ac effeithiau presennol y cynnydd mewn costau byw, gyda’r naill a’r llall wedi effeithio’n fawr ar ein bywydau a’n bywoliaethau.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn cynnig cyflwyno ffioedd cymedrol yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn talu tuag at gostau rhedeg y tribiwnlysoedd a, fwy neu lai, yn rhoi defnyddwyr ar yr un lefel â defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd eraill sydd eisoes yn talu ffioedd, gan sicrhau cysondeb ar draws awdurdodaethau.

Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn i’r system allu ymdopi â’r galw mawr a diogelu mynediad at gyfiawnder i bawb. Defnyddiwyd ffioedd fel ffordd o dalu tuag at gostau rhedeg llysoedd a thribiwnlysoedd ers blynyddoedd lawer. Mae’r Llywodraeth yn dal i gredu na ddylai’r gost o redeg y gwasanaeth gael ei hamsugno gan y pwrs cyhoeddus yn unig. Ond mae’n briodol bod rhai o gostau rhedeg y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn cael eu hadennill oddi wrth y rheini sy’n defnyddio’r system, ac sy’n gallu fforddio gwneud hynny.

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ystyried yn ofalus dyfarniad y Goruchaf Lys o 2017 ar y dull blaenorol o ymdrin â ffioedd yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac mae wedi ymdrechu i sicrhau bod y ffioedd a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn gymesur ac yn fforddiadwy, yn unol â’r dyfarniad. Yn yr un modd ag awdurdodaethau eraill y llysoedd a’r tribiwnlysoedd, bydd y rheini na allant fforddio talu’r ffioedd arfaethedig yn cael eu cefnogi gan ein cynllun dileu ffioedd, Help i Dalu Ffioedd (HwF). Mae’r cynllun HwF yn rhoi cymorth ariannol i unigolion ar incwm isel sydd heb fawr neu ddim cynilion, tuag at gost ffioedd y llys neu’r tribiwnlys. Ar yr amod eu bod yn bodloni’r meini prawf cymhwyso, bydd

ymgeiswyr naill ai'n gymwys i gael gostyngiad yn y ffi (dileu'r ffi'n rhannol) neu ddileu'r ffi'n llawn.

Rydym hefyd wedi lansio cynllun HwF mwy hael, diwygiedig, i ddarparu mwy o gymorth ariannol i'r rheini sydd fwyaf mewn angen. Mae hyn yn codi'n sylweddol y trothwyon incwm sy'n pennu cymhwysedd ymgeisydd, gan gynnwys mwy o gymorth ariannol i deuluoedd drwy lwfansau uwch i bartneriaid a phlant. Mae ein diwygiadau hefyd yn cynyddu'r trothwy cyfalaf gwario isaf y gall ymgeisydd ei gael, wrth barhau i fod yn gymwys i fod yn destun dilead ffioedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr Arglwydd Ganghellor arfer ei bŵer i ddileu ffi, sy'n sicrhau ymhellach fod mynediad at gyfiawnder yn cael ei ddiogelu.

Credaf fod y cynigion hyn yn gytbwys ac er budd holl ddefnyddwyr y tribiwnlys, a byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Rwy'n falch o genhadaeth y Llywodraeth hon i redeg system gyfiawnder effeithlon ac effeithiol, er mwyn diogelu'r gyfraith a sicrhau mynediad i gyfiawnder i bawb. Bydd gweithdrefn ffioedd sy'n dryloyw, effeithiol a theg yn sail i'r nodau hollbwysig hyn ymhell i'r dyfodol.

**Mike Freer**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

# Yr achos dros gyflwyno ffioedd yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth

## Cyflwyniad

### Cefndir

*Y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth*

1. Sefydlwyd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (TC) a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth (TAC) i ddarparu fforwm syml a hygyrch i’r cyhoedd er mwyn datrys anghydfodau sy’n codi yn y gweithle. Fe’u cynlluniwyd i fod yn fwy anffurfiol na’r llysoedd fel y gall defnyddwyr baratoi a chyflwyno eu hachosion yn syml ac yn effeithiol, heb fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae gan y TC a’r TAC awdurdodaeth i benderfynu ar dros 70 o wahanol fathau o hawliadau, gan ddarparu datrysiadau cyfiawn a phenodol i anghydfodau sy’n codi o sefyllfaoedd cyflogaeth.

2. Mae dwy awdurdodaeth ar wahân ar gyfer y TC ym Mhrydain Fawr: un ar gyfer Cymru a Lloegr ac un ar gyfer yr Alban. Mae gan y TAC awdurdodaeth i wrando ar apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol o bob TC.

*Hanes o ffioedd tribiwnlysoedd mewn achosion cyflogaeth a dyfarniad UNISON*

3. Ar hyn o bryd nid oes ffioedd tribiwnlysoedd yn y TC na’r TAC.

4. Fodd bynnag, roedd ffioedd ar waith yn y TC a'r TAC yn flaenorol, rhwng mis Gorffennaf 2013 a mis Gorffennaf 2017. Cyflwynodd y Llywodraeth ffioedd ar 29 Gorffennaf 2013 drwy Orchymyn Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth 2013, yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus o’r enw ‘*Charging Fees in Employment Tribunals and the Employment Appeal Tribunal*’ ar 14 Rhagfyr 2011[1] ac ymateb dilynol i’r ymgynghoriad ar 13 Gorffennaf 2012[2].

5. Roedd trefn ffioedd 2013 yn categoreiddio hawliadau TC yn hawliadau ‘Math A’ neu ‘Math B’ gyda ffioedd gwahanol yn daladwy yn dibynnu ar p’un a oedd yr hawliad yn hawliad ‘Math A’ neu ‘Math B’. Denodd hawliadau Math A (a oedd yn cynnwys anghydfodau syml megis tâl gwyliau heb ei dalu) ffi cychwyn o £160 a ffi gwrandawiad o £230, cyfanswm o £390 mewn ffioedd. Denodd hawliadau Math B

[1] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/et-fee-charging-regime-cp22-2011/supporting_documents/chargingfeesinetandeat1.pdf

[2] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/et-fee-charging-regime-cp22-2011/results/employment-tribunal-fees-consultation-response.pdf

(a oedd yn cynnwys anghydfodau mwy cymhleth megis gwahaniaethu) ffi cychwyn o £250 a ffi gwrandawiad o £950, cyfanswm o £1,200 mewn ffioedd. Denodd y TAC ffi cychwyn o £400 a ffi gwrandawiad o £1,200, sef cyfanswm o £1,600 mewn ffioedd.

6. Arweiniodd cyflwyno ffioedd yn 2013 at ostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau a ddygwyd i'r TC. Gostyngodd nifer yr achosion 53% yn y 12 mis ar ôl y newid yn y ffi – o oddeutu 59,000 o achosion rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mehefin 2013, i oddeutu 28,000 o achosion rhwng mis Gorffennaf 2013 a mis Mehefin 2014.[3] Yn *R (Unison) v The Lord Chancellor (2017) UKSC 51*, diddymodd y Goruchaf Lys y Gorchymyn Ffioedd[4] gan ei fod o'r farn bod y ffioedd yn anghyfreithlon oherwydd (a) eu bod yn anfforddiadwy yn ymarferol, a (b) eu bod yn gwneud mynd ar drywydd hawliadau anariannol ac isel eu gwerth – a welodd ostyngiad mwy mewn niferoedd – yn ddibwrpas ac yn afresymol, a oedd i bob pwrpas yn atal mynediad at gyfiawnder. Ar ben hynny, canfuwyd bod y strwythur ffioedd yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod ac unigolion â nodweddion gwarchodedig, a oedd yn fwy tebygol o gyflwyno hawliadau Math B ac felly'n atebol i dalu'r ffi uwch. Ers i'r ffioedd gael eu dileu, mae nifer yr achosion wedi cynyddu, o tua 18,000 yn 2016/17 i gyrraedd cyfanswm o tua 33,000 yn 2022/23.[5]

*Gwersi a ddysgwyd o ddyfarniad UNISON*

7. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod nad oedd y ffioedd a gyflwynwyd yn 2013 yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng bodloni'r amcan polisi i hawlwyr dalu rhai o gostau'r TC a'r TAC, a diogelu mynediad at gyfiawnder. O ganlyniad, wrth ddatblygu'r cynnig am ffioedd sy'n destun yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys, yn enwedig mewn perthynas â fforddiadwyedd, cymesuredd a symlrwydd fel y tair egwyddor allweddol sy'n sail i ddull teg a chytbwys o bennu ffioedd yn y TC a'r TAC.

8. Mae'r mater o sicrhau fforddiadwyedd yn arbennig o bwysig yn y TC o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael i hawlwyr gyflwyno hawliad a thalu unrhyw ffi. Mae gan hawlwyr hyd at 3 mis i gyflwyno eu hawliad (neu 6 mis ar gyfer hawliadau am ddiswyddo neu gyflog cyfartal). Mae cymesuredd yr un mor bwysig wrth ystyried lefel gyffredinol y ffi gan fod y rhwymedïau a geisir drwy'r TC a'r TAC yn amrywiol ac yn cynnwys nifer o ddatrysiadau anariannol. Canfu Arolwg o Geisiadau

---

[3] Sylwer: cyn i'r gyfundrefn ffioedd TC flaenorol ddod i rym ar 29 Gorffennaf 2013, gwelwyd nifer anarferol o uchel o hawliadau newydd ym mis Gorffennaf 2013. *Case volumes taken from Tribunal Statistics Quarterly, April-June 2023, Annex C: Employment Tribunal Receipts Tables, Table C_1.*

[4] R (on the application of UNISON) (Appellant) v Lord Chancellor (Respondent) (supremecourt.uk)

[5] Mae nifer yr achosion hawliadau a gyhoeddwyd yn 2022/23 yn tanamcangyfrif rhywfaint o nifer yr hawliadau yn y TC, oherwydd newid pellach yn y system rheoli achosion o 'ECM' (Rheoli Achosion Uwch) i 'Diwygio ECM' ym mis Medi 2022. Mae nifer yr achosion a gafodd eu heithrio o ffigurau 2022/23 yn fach iawn (llai na 2,000 o achosion) ac felly nid oes disgwyl iddo gael effaith sylweddol ar ansawdd data nifer yr achosion a ddefnyddir at ddibenion modelu.

Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (SETA) 2018 [6] fod 4% o hawlwyr a oedd wedi bod yn llwyddiannus mewn tribiwnlys cyflogaeth ac a gafodd swm o arian, wedi cael llai na £500, gyda gwerth canolrifol cyffredinol yr iawndal ariannol a gafodd hawlwyr a oedd yn llwyddiannus mewn gwrandawiad yn £5,000. Fodd bynnag, roedd hawlwyr eraill yn ceisio dyfarniadau anariannol. O ganlyniad, mae'n hanfodol nad yw ffioedd yn cael eu pennu ar lefel a allai olygu bod mynd ar drywydd hawliadau gwerth isel neu anariannol yn afresymol ac yn ofer.

*Y trefniadau presennol yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth*

9. Gweinyddir y TC a'r TAC gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF). Gan nad oes ffioedd ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno hawliad cyflogaeth neu apelio yn erbyn penderfyniad TC, trethdalwyr sy'n llwyr gyfrifol am gostau gweinyddu gwasanaethau tribiwnlys GLlTEF. Cost rhedeg uniongyrchol y TC a'r TAC oedd tua £80 miliwn yn 2022/23, gydag oddeutu 33,000 o achosion yn gynwysedig o oddeutu 85,000 o hawliadau'n cael eu cyflwyno i TC yn yr un flwyddyn. Mae nifer yr hawliadau yn cynnwys pob unigolyn a gyflwynodd hawliad. Mae hyn yn golygu bod pob hawlydd sy'n gysylltiedig ag achos, boed yn hawlydd unigol neu'n nifer o hawlwyr, yn cael eu cynnwys yn y ffigur hwn. Ar gyfer hawlwyr unigol, mae eu hawliad unigol wedyn yn dod yn un achos, ond ar gyfer nifer o hawlwyr, cyfunir eu hawliadau i greu un achos.

10. Mae'r trethdalwr hefyd yn ariannu'r gwasanaeth cymodi cynnar a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS), sy'n darparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i helpu partïon i ddatrys eu hanghydfodau cyflogaeth heb orfod cyflwyno hawliad tribiwnlys. Yn 2021/22, cafodd ACAS £56m o gyllid gan yr Adran Busnes a Masnach (DBT). Cynyddodd hyn i £58m yn 2022/23[7], gyda tua £24m o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch datrys anghydfodau unigol.

11. Canfu arolwg Problemau a Datrysiadau Cyfreithiol 2014 i 2015, sy'n mesur profiadau pobl o broblemau bob dydd a allai gael eu datrys yn gyfreithiol drwy system y llysoedd sifil neu'r tribiwnlysoedd, fod 6% o oedolion wedi profi problem cyflogaeth. O'r oedolion hyn a oedd wedi profi problem cyflogaeth, dim ond 3% a ddywedodd eu bod wedi gwneud hawliad tribiwnlys. Mae angen darparu adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth barhau i redeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd y ffioedd sy'n destun yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ni waeth pa mor fach ydynt, yn helpu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi i redeg y tribiwnlysoedd.

[6] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f06c2e3e90e0712d0206e99/survey-employment-tribunal-applications-2018-findings.pdf

[7] Acas annual report and accounts, 2022 to 2023 - GOV.UK (www.gov.uk) (page 88).

**Cefndir yr ymgynghoriad hwn**

12. Bwriad y cynnig i gyflwyno ffioedd yn y TC a’r TAC yw lliniaru rhywfaint ar y gost i’r trethdalwr cyffredinol drwy fynnu bod defnyddwyr tribiwnlysoedd yn talu am system y tribiwnlys, lle gallant fforddio gwneud hynny.

13. Ar ben hynny, gall ffioedd rhesymol gymell partïon i setlo eu hanghydfodau’n gynnar drwy ACAS heb fod angen cyflwyno hawliadau i’r TC. Byddai gwell ymgysylltiad gan bartïon ym mhroses cymodi cynnar ACAS nid yn unig yn ychwanegu gwerth at arian trethdalwyr sy’n cael ei wario ar ddarparu’r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn, ond gallai hefyd helpu i leddfu rhai o’r pwysau y mae’r TC yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

*Y rhesymeg y tu ôl i ffioedd y tribiwnlys*

14. Mae rhesymau clir pam y dylid codi ffioedd yn y TC a’r TAC.

15. Yn gyntaf, byddai codi ffioedd yn y TC a’r TAC yn gyson â’n dull o godi ffioedd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Mae Pennod 6 Llawlyfr Trysorlys EF ar Reoli Arian Cyhoeddus yn amlinellu’r egwyddorion polisi cyffredinol ar osod ffioedd gan sefydliadau’r sector cyhoeddus. Mae’n datgan mai’r dull safonol yw pennu taliadau a ffioedd i adennill costau llawn, ond mae’n rhoi disgresiwn i Weinidogion eu gosod ar lefel is. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw’r Llywodraeth yn “elwa ar draul defnyddwyr nac yn gwneud unrhyw golled i drethdalwyr i roi cymhorthdal”. Er na fydd yn bosibl adennill cost lawn y gwasanaeth bob amser, mae’n briodol bod y defnyddwyr hynny sy’n gallu fforddio talu ffi am ddefnyddio system y tribiwnlys yn gwneud hynny. Mae hyn yn helpu i ddiogelu mynediad at gyfiawnder i bawb drwy ddarparu adnoddau ar gyfer rhedeg ein gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn effeithlon ac yn effeithiol.

16. Yn ail, mae’r tribiwnlysoedd hyn yn debyg i lysoedd sifil gan eu bod yn gweithredu fel dyfarnwyr annibynnol sydd â’r pŵer i wneud penderfyniadau sy’n gyfreithiol rwymol mewn anghydfod rhwng dau barti. Yn wir, mae rhai hawliadau, fel arfer y rheini sy’n ymwneud â thaliadau a hawlir dan y contract cyflogaeth (h.y. hawliadau ‘torri contract’) y gellir eu gwneud naill ai yn y llysoedd sifil neu’r TC. Mae defnyddwyr yn y llysoedd sifil yng Nghymru a Lloegr, a’r llysoedd sifil ar wahân yn yr Alban, wedi gorfod talu ffioedd ers blynyddoedd lawer. Felly, bydd cyflwyno ffioedd yn rhoi defnyddwyr TC ar seiliau tebyg.

17. Yn drydydd, mae’r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) - sy’n darparu gwasanaeth datrys anghydfod amgen cyn y tribiwnlys ar gyfer datrys anghydfodau cyflogaeth - yn cael ei ariannu’n gyfan gwbl bron gan y trethdalwr. Felly, bydd codi ffioedd cymedrol yn y TC a’r TAC yn helpu i gynhyrchu adnoddau i ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth, lleihau’r gost i’r trethdalwr a sicrhau bod y tribiwnlys yn cydymffurfio â pholisi’r Llywodraeth ar godi ffioedd yn gyffredinol. Ar sail

niferoedd 2022/23 a gan ystyried cyfraddau dileu ffioedd, bydd cyflwyno ffioedd fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cynhyrchu rhwng £0.6m a £0.7m yn 2024/25, a rhwng £1.3m ac £1.7m y flwyddyn o 2025/26 ymlaen.[8] Gallai ffioedd cymedrol hefyd helpu i annog partïon i ystyried cymodi cynnar fel ffordd o ddatrys eu hanghydfod cyn mynd â'u hachos i'r TC.

*Mynediad at gyfiawnder*

18. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol a chyfansoddiadol i amddiffyn mynediad at gyfiawnder ac i sicrhau y gall y llysoedd a'r tribiwnlysoedd weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Ar hyn o bryd mae dros 300 o ffioedd ynghlwm wrth wasanaethau GLITEF ar draws pob awdurdodaeth. Yn 2022/23, cynhyrchodd ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd £727 miliwn o gyfanswm y £2.3 biliwn y mae'n ei gostio i redeg GLITEF. Mae bwlch o'r fath yn golygu bod arian trethdalwyr yn llenwi'r bwlch mewn cyllid i sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, ac nad yw cyllid wedyn ar gael ar gyfer meysydd eraill.

19. Fel rhan o'n dyletswydd i amddiffyn mynediad at gyfiawnder, mae gennym gynllun dileu ffioedd, Help i Dalu Ffioedd (HwF), y gall defnyddwyr wneud cais amdano os nad ydynt yn gallu fforddio ffi. Yn yr un modd ag awdurdodaethau llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, bydd unigolion nad ydynt yn gallu talu'r ffioedd a gynigir yn cael eu cefnogi gan y cynllun HwF er mwyn diogelu mynediad at gyfiawnder. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad[9] ar ddiwygio HwF ac mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith gan Orchymyn Llysoedd a Thribiwnlysoedd (Dileu Ffioedd a Diwygiadau Amrywiol) 2023, a ddaeth i rym ar 27 Tachwedd 2023. Mae'r newidiadau hyn wedi gwneud cynllun HwF yn fwy hael, gan dargedu cymorth ariannol at y rhai mwyaf anghenus a darparu'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Bwriedir ymestyn cynllun HwF fel ei fod ar gael i unigolion sy'n dwyn achosion i'r TC neu'r TAC. Bydd y rheini sy'n gymwys ar gyfer y cynllun yn gallu gwneud cais am ddileu ffioedd ar gyfer eu ffi TC neu TAC, os caiff ei gyflwyno.

20. Ar gyfer unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer HwF ond y mae eu hamgylchiadau'n golygu na allant yn realistig fforddio talu'r ffi perthnasol, gall dilead fod ar gael hefyd o dan Bŵer Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd. Mae'r pŵer hwn yn berthnasol pan fyddai talu ffioedd yn achosi caledi ariannol gormodol neu galedi arall, ac y gallai fod ar gael mewn perthynas â ffioedd TC a TAC. Mae penderfyniadau'n seiliedig ar rinweddau pob cais unigol drwy ystyried incwm, cyfalaf gwario, gwariant neu amgylchiadau arbennig eraill yr ymgeisydd. Mae Pŵer Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor yn cynnig mesur diogelu ychwanegol a

[8] Mae'r Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn yn rhoi dadansoddiad llawn o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyrraedd yr amcangyfrif incwm hwn.

[9] Revising the 'Help with Fees' remission scheme – protecting and enhancing access to justice Consultation response (publishing.service.gov.uk)

fydd yn diogelu mynediad at gyfiawnder i’r rheini sydd heb unrhyw fodd ariannol i dalu ffi.

*Cwmpas yr ymgynghoriad*

21. Mae’r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r cynnig ar gyfer cyflwyno ffioedd cymedrol yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Mae’r ymgynghoriad wedi’i anelu at gyflogwyr, gweithwyr, undebau llafur, sefydliadau cyflogwyr, cynrychiolwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb ym Mhrydain Fawr. Mae’n cael ei gynnal yn unol â’r Cod Ymarfer ar Ymgynghori, a gyflwynwyd gan Swyddfa’r Cabinet, ac mae’n dod o fewn cwmpas y Cod. Mae’r meini prawf ymgynghori, sydd wedi’u nodi ar dudalen 4 y Cod, wedi cael eu dilyn.

22. Mae cwmpas yr ymgynghoriad hwn wedi’i gyfyngu i lefel a strwythur y ffioedd a gynigir. Ar wahân i’r materion hyn, nid yw’r egwyddor o gyflwyno ffioedd i gyfrannu at gostau rhedeg y gwasanaethau TC a TAC yn dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

23. Adeg cyhoeddi, er bod opsiynau’n dal i gael eu datblygu a’u trafod mewn perthynas â’r amserlen ar gyfer datganoli gweinyddiaeth tribiwnlysoedd yn yr Alban, nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto. I’r perwyl hwnnw, mae’r cynigion ar gyfer ffioedd a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cwmpasu holl awdurdodaeth bresennol TC yng Nghymru, Lloegr a’r Alban. Mae gan Ogledd Iwerddon ei thribiwnlys cyfatebol ei hun (*Office of the Industrial and Fair Employment Tribunal*) ac nid yw’n rhan o’r ymgynghoriad hwn.

# Y Cynnig

## Datblygu strwythur ffioedd

24. Mae datblygu strwythur ffioedd ar gyfer y TC a'r TAC yn cyflwyno nifer o heriau cymhleth, megis:

- pennu lefel deg o ffioedd sy'n galluogi defnyddwyr y gwasanaeth (sy'n gallu fforddio gwneud hynny) i gyfrannu at gostau rhedeg y tribiwnlys, a lleihau'r baich ariannol ar y trethdalwr, ond heb rwystro mynediad at gyfiawnder;

- sicrhau bod ffi'r hawlydd ar y fath lefel fel nad yw'n newid y cydbwysedd economaidd rhwng y partïon yn sylweddol;

- nodi'n glir y pwyntiau yn y broses ble dylid codi ffi, er mwyn rhoi digon o amser i bartïon ystyried cost y ffi.

25. Mae rheoli gwasanaethau cyhoeddus yn dda yn gofyn am welliant ac adolygiad o gostau gweithredol parhaus, ac mae GLITEF eisoes yn gwneud diwygiadau digidol yn y TC i ddarparu gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, gyda phob hawliad sy'n cael ei ddwyn i'r TC a'r TAC, mae GLITEF yn ysgwyddo costau prosesu y mae'n rhaid eu talu. Mae'r gost o weinyddu'r TC yn codi yn gyntaf o ddarparu'r prosesau sydd eu hangen i ddelio â'r hawliadau. Yna, mae costau ychwanegol sy'n deillio o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r prosesau fel adeiladau, offer, systemau TG, staff tribiwnlysoedd a'r farnwriaeth. Ar bob cam o'r hawliadau, mae'r TC yn wynebu costau gweinyddol wrth dderbyn a chyflwyno hawliadau ac ymatebion, wrth ddelio â materion cyn-gwrandawiad, ymateb i ymholiadau, trefnu a chynnal gwrandawiadau a rhoi gwybod am benderfyniadau barnwrol. Bwriedir i strwythur ffioedd fod yn ddull o sicrhau gwell cydbwysedd wrth geisio cyfraniad at y costau rhedeg amrywiol hyn gan ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n gallu fforddio gwneud hynny, a thrwy hynny liniaru rhywfaint o'r baich ariannol ar drethdalwyr.

26. Mae'r strwythur ffioedd arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei ddylunio i fod yn syml i ddefnyddwyr ei ddeall ac yn hawdd i GLITEF (sy'n gweithredu'r TC a'r TAC) ei weinyddu. Mae symlrwydd yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr ddeall y broses a'r costau perthnasol yn hawdd, a thrwy hynny sicrhau bod y penderfyniad i ddwyn hawliad yn cael ei wneud gan wybod yn llawn beth a phryd y mae ffi'n daladwy. Mae symleiddio hefyd o fudd i GLITEF, gan mai po fwyaf yw'r nifer a'r ystod ehangach o ffioedd, y mwyaf costus fydd strwythur ffioedd i'w weithredu a'i weinyddu. Felly, mae'r symlrwydd sy'n sail i'r cynnig hwn hefyd wedi'i

gynllunio i atal GLITEF rhag wynebu costau ychwanegol diangen o ganlyniad i ffioedd, gan y byddai hynny’n cael ei ysgwyddo yn y pen draw gan ddefnyddwyr drwy ffioedd a’r trethdalwr drwy gyllid Trysorlys EF.

27. Yn anad dim, mae’n hanfodol na ddylai ffioedd atal hawliadau rhag cael eu dwyn drwy ei gwneud yn anfforddiadwy i’r rheini sydd â llai o fodd. Felly, wrth ddatblygu’r cynnig hwn, rhoddwyd sylw penodol i sicrhau y byddai lefel y ffioedd yn fforddiadwy i’r cyhoedd ar y cyfan ac yn gymesur â’r datrysiad sy’n cael ei geisio. Ar ben hynny, fel y nodir ym mharagraffau 19 ac 20 uchod, bydd ein cynllun dileu ffioedd HwF a Phŵer Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i dalu ffioedd ar gael i’r rheini sy’n gymwys.

28. Mae’r cynnig a amlinellir isod yn ceisio sicrhau cyfraniad defnyddwyr tuag at y tribiwnlysoedd, sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu’n llawn o drethiant uniongyrchol ar gost o tua £80m yn y flwyddyn 2022/23, gan sicrhau bod egwyddorion fforddiadwyedd, cymesuredd a symlrwydd sy’n sail i’r ffioedd arfaethedig yn parhau i ddiogelu mynediad at gyfiawnder i bawb.

29. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymdrechu i asesu costau datblygol y llysoedd a’r tribiwnlysoedd yn rheolaidd, ac i adolygu’r ffioedd y mae defnyddwyr yn eu talu.

## Crynodeb o’r cynnig

30. Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein cynnig, sef cyflwyno ffi cychwyn hawliad yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a chyflwyno ffi apelio yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Rydym hefyd yn nodi rhai eithriadau rhag y ffioedd hyn, a’n safbwynt polisi ynghylch sut dylai rheolau cost gael eu cymhwyso i ffioedd.

31. Byddai’r ffioedd yn berthnasol i hawlwyr ac apelwyr, beth bynnag fo’r math o hawliad neu’r trac y mae achos yn cael ei gategoreiddio oddi tano. Mae’r ffioedd a gynigir wedi cael eu dylunio i fodloni’r profion fforddiadwyedd, cymesuredd a symlrwydd.

*Ffi cychwyn hawliad – Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (TC)*

32. Rydym yn cynnig cyflwyno ffi cychwyn o £55 sy’n daladwy gan yr hawlydd wrth gyflwyno hawliad i’r TC.

33. Pan fydd hawliad yn cael ei gyflwyno gan nifer o hawlwyr, byddai’r ffi’n aros ar £55 a byddai ‘yr hawlydd’ yn cael ei drin fel un endid. Felly, gellid rhannu cost y ffi rhwng yr holl hawlwyr perthnasol, fel y cytunwyd rhyngddynt.

34. Gan nad ydym yn bwriadu codi ffi gwrandawiad, bydd y ffi cychwyn o £55 yn talu am holl daith hawliad mewn TC.

35. Fel y nodir uchod, bydd ein cynllun dileu ffioedd HwF a Phŵer Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd ar gael i'r rheini sy'n gymwys.

*Ffi apelio – y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth (TAC)*

36. Rydym yn cynnig cyflwyno ffi o £55 sy'n daladwy gan yr apelydd wrth gyflwyno apêl yn y TAC, drwy Ffurflen 1 TAC (Hysbysiad Apêl).

37. Byddai ffi o £55 yn daladwy fesul dyfarniad, penderfyniad, cyfarwyddyd neu orchymyn TC yr apelir yn ei erbyn. Er enghraifft, os yw hysbysiad o apêl yn cynnwys apeliadau yn erbyn dau benderfyniad TC, cyfanswm y ffi sy'n daladwy fyddai £110. Mae'r dull hwn o godi ffi apelio yn adlewyrchu'r broses a'r ffordd y mae'r TAC yn ymdrin ag apeliadau. Er y gall Hysbysiad Apêl gynnwys apeliadau yn erbyn nifer o benderfyniadau TC, unwaith y bydd yr Hysbysiad yn cyrraedd y TAC, mae pob penderfyniad sy'n cael ei apelio yn cael ei gofrestru a'i brosesu'n unigol fel ffeiliau ar wahân gan staff GLITEF. Mae hyn yn wahanol i'r TC lle mae ffurflen hawlio TC1, sy'n cynnwys nifer o hawliadau, yn cael ei chofrestru fel un achos ar ôl i GLITEF ei derbyn. Felly, mae ffi TAC sy'n daladwy yn erbyn pob penderfyniad TC sy'n destun apêl yn adlewyrchu'n gywir yr adnoddau gweinyddol a barnwrol penodol sydd eu hangen ar GLITEF.

*Esemptiadau*

38. Rydym wedi nodi tri math o achos yn y TC lle nad ydym yn credu ei bod yn briodol codi ffi, ac felly rydym yn cynnig y dylai esemptiad rhag ffioedd fod ar waith. Mae'r rhain yn achosion lle mae'n ofynnol i unigolion ddwyn achos gerbron TC i sefydlu eu hawl i daliad gan y Gronfa Yswiriant Gwladol (Cronfa YG).

39. Mae'r Gwasanaeth Taliadau Dileu Swydd yn gweinyddu'r cynllun statudol lle mae rhai dyledion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu talu gan y Gronfa YG mewn amgylchiadau lle nad yw'r cyflogwr yn gallu gwneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd bod y cyflogwr wedi mynd yn fethdalwr. Rheolir y taliadau hyn gan adrannau 166 i 170 ac 182 i 190 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (yr "ERA") ac adrannau 123 i 127 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 (y "PSA").

40. Mewn rhai achosion, ni all Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes a Masnach (DBT) dderbyn cais am daliad o'r gronfa, er enghraifft am nad yw bodolaeth y ddyled, na'i swm, wedi'i phrofi'n ddigonol. Yn yr achosion hynny, gall yr hawlydd wneud cais i'r TC i fodloni'r Ysgrifennydd Gwladol dros DBT bod taliad yn ddyledus. Mae'r ceisiadau fel y ganlyn:

    a) cyfeiriad at y TC o dan adran 170 o'r ERA, sy'n ymwneud â thaliadau o dan adran 166 o'r ERA ac sy'n cwmpasu taliadau dileu swydd;

b) cwyn i'r TC o dan adran 188 o'r ERA sy'n ymwneud â thaliadau o dan adran 182 o'r ERA; a

c) chwyn i’r TC o dan adran 126 o'r PSA sy'n ymwneud â thaliadau o dan adran 124 o'r PSA ac sy'n cwmpasu cyfraniadau pensiwn penodol sydd heb eu talu.

41. Credwn fod rhesymau dilys dros gymhwyso triniaeth ffioedd wahanol i’r ceisiadau hyn o ystyried bod natur yr achosion hyn yn wahanol i’r rhan fwyaf o hawliadau TC:

- Yn gyffredinol, nid yw’r rhain yn faterion y gellir eu cymodi;
- Mae’r taliadau’n ddarostyngedig i’r cynllun statudol ac, o dan yr amgylchiadau a nodir uchod, ni all yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach wneud taliad oni bai fod TC wedi gwneud gorchymyn i’r perwyl hwnnw; a
- Gwneir y rhan fwyaf o geisiadau pan fo’r cyflogwr wedi mynd yn fethdalwr.

42. Mae’n wir fod rhai ceisiadau, yn enwedig rhai a wneir o dan adran 188 yr ERA, yn cael eu dwyn yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros DBT a fyddai’n gallu bodloni gorchymyn i ad-dalu ffioedd hawlwyr. Fodd bynnag, mae manteision o ddefnyddio dull cyson ar gyfer y ffioedd a godir ar gyfer y ddwy set o geisiadau oherwydd ei fod yn rhoi eglurder a sicrwydd i hawlwyr, ac mae hefyd yn haws i GLITEF ei weinyddu.

43. Yn unol â dull yr Adran o ymdrin ag achosion o’r fath, ac fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn adroddiad 2017 “*Review of the introduction of Fees in the Employment Tribunal*”, rydym yn cynnig y dylai pob cyfeiriad at y TC o dan adran 170 o’r ERA a phob cwyn i’r TC o dan adran 188 o’r ERA neu adran 126 o’r PSA gael ei eithrio rhag ffioedd.

*Gorchymyn costau*

44. Yn wahanol i lysoedd sifil lle mae’n ofynnol i’r parti sy’n colli dalu costau cyfreithiol yr enillydd, y rheol gyffredinol yn y TC yw bod yn rhaid i bob parti dalu ei gostau cyfreithiol ei hun (gan gynnwys unrhyw ffioedd tribiwnlys) ni waeth pwy sy’n ennill yr achos. Y rheswm am hyn yw bod Tribiwnlysoedd Cyflogaeth wedi’u cynllunio i weithredu fel fforwm mwy anffurfiol a hygyrch i unigolion, yn enwedig y rheini heb gynrychiolaeth gyfreithiol, i ddatrys eu hanghydfodau.

45. Mae Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 2013 yn darparu amgylchiadau cyfyngedig iawn lle gall TC orchymyn un parti (cyflogai neu gyflogwr) i dalu costau cyfreithiol y parti arall, gan gynnwys treuliau fel ffioedd tribiwnlysoedd. O dan Reol 76, mae’r rhain yn achosion lle mae’r barnwr o’r farn:

(a) bod parti, neu ei gynrychiolydd, wedi gweithredu’n drallodus, yn aflonyddol, yn ddifrïol neu fel arall yn afresymol naill ai wrth ddwyn yr achos (neu ran ohono) neu’r ffordd y cynhaliwyd yr achos (neu ran ohono); neu

(b) nad oedd gan unrhyw hawliad neu ymateb unrhyw obaith rhesymol o lwyddo; neu

(c) bod gwrandawiad wedi'i ohirio ar gais parti a gafodd ei wneud lai na 7 niwrnod cyn y dyddiad y mae'r gwrandawiad perthnasol yn dechrau.

46. O dan y cynnig sy’n destun yr ymgynghoriad hwn, bydd y rheolau ar orchmynion cost a gynhwysir yn Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 2013 yn parhau i fod yn berthnasol, heb eu newid.

## Y rhesymeg dros y ffioedd arfaethedig cyffredinol

47. Y tair egwyddor allweddol sy’n sail i’n cynnig cyffredinol, fel y nodir uchod, yw: fforddiadwyedd, cymesuredd a symlrwydd.

**<u>Fforddiadwyedd</u>**

48. Fforddiadwyedd yw’r egwyddor lle gosodir ffi ar lefel y gellir disgwyl yn rhesymol i unigolion allu ei bodloni, ac mae’n fater allweddol a amlygwyd gan y Goruchaf Lys yn 2017 yn ei ddyfarniad UNISON. Yn benodol, dywedodd y Goruchaf Lys, lle gall aelwydydd ar incwm isel i ganolig ddim ond fforddio ffioedd drwy aberthu’r gwariant cyffredin a rhesymol sy’n ofynnol i gynnal yr hyn a fyddai’n cael ei ystyried yn gyffredinol yn safon byw derbyniol, na ellir ystyried ffioedd yn ‘fforddiadwy’.

49. Wrth ddatblygu’r cynnig hwn, ystyriwyd fforddiadwyedd mewn perthynas â throthwyon y cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd sydd newydd gael ei adolygu, yn ogystal â’r amser y byddai angen ar unigolion i ddod o hyd i’r ffi.

50. Rydym yn asesu bod ffi o £55 yn gyffredinol yn fforddiadwy i hawlwyr ac apelwyr. Fel y nodwyd ym mharagraff 19 uchod, rydym wedi diwygio’r cynllun Cymorth i Dalu Ffioedd yn ddiweddar, gan ei wneud yn fwy hael a thargedu cymorth ariannol at y rheini sydd ei angen fwyaf. I roi hynny yn ei gyd-destun o ran fforddiadwyedd y ffioedd £55 arfaethedig ar gyfer hawlwyr ac apelwyr, byddai unrhyw berson sy’n sengl, heb blant ac sydd â llai na £4,250 mewn cyfalaf gwario ac incwm misol gros o £1,420 neu lai yn gymwys i gael dileu eu ffi TC neu TAC yn llawn.

51. Ar gyfer y rheini nad ydynt yn gymwys i gael dileu’r ffi’n llawn oherwydd eu bod yn methu’r prawf cyfalaf gwario a bod ganddynt £4,250 neu fwy mewn cyfalaf gwario, rydym yn ystyried bod ffi £55 yr un mor fforddiadwy gan fod hyn yn cyfrif am 1.3%

neu lai o'r cyfalaf gwario sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, pe bai gan hawlwyr ac apelwyr lai na £4,250 mewn cyfalaf gwario, a hefyd yn methu'r prawf ar gyfer dilead llawn oherwydd bod ganddynt incwm misol gros sydd ychydig yn uwch na'r trothwy incwm misol gros gofynnol, byddai ffi o £55 yn cyfrif, ar y mwyaf, am 3.6% o'u hincwm misol gros. Fodd bynnag, o'r hawlwyr a'r apelwyr hynny sy'n sengl heb blant, gyda llai na £4,250 mewn cyfalaf gwario ac incwm misol gros o £1,420 neu fwy, hyd at a chan gynnwys £1,520, byddent yn gymwys i gael dileu'r ffi'n rhannol ac felly ni fyddai disgwyl iddynt dalu'r ffi lawn. Dim ond y rheini sy'n ennill mwy na £1,520 mewn incwm misol gros neu sydd â £4,250 neu fwy mewn cyfalaf gwario y byddai disgwyl iddynt dalu'r ffi lawn. O ystyried yr uchod, credwn fod £55 yn fforddiadwy i hawlwyr ac apelwyr.

52. Efallai y bydd Pŵer Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd ar gael i'r hawlwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael HwF ond nad ydynt serch hynny yn gallu fforddio ffi oherwydd caledi ariannol neu galedi arall.

53. Ar wahân, rydym hefyd yn nodi y gall ffi(oedd) hawlwyr gael eu talu gan drydydd parti. Roedd 96% o'r hawlwyr a gyfwelwyd yn adroddiad SETA 2018 naill ai wedi talu ffioedd neu wedi cael gostyngiad.[10] O'r hawlwyr yn 2018, dywedodd 17% fod trydydd parti (e.e. undeb llafur) wedi talu eu ffi cychwyn hawliad. Ar ben hynny, canfu adroddiad SETA 2013 fod cyflog canolrifol hawlwyr (£23,600) mewn swyddi parhaol amser llawn yn agos at, er ychydig yn is, na'r cyfartaledd cenedlaethol bryd hynny (£25,000). Ond roedd hawlwyr yn fwy tebygol o fod yn rheolwr, yn gyfarwyddwr neu'n uwch swyddog (14% o'i gymharu â 9% o'r holl weithwyr).

54. Ystyriwyd hefyd faint o amser y bydd gan hawlwyr i dalu'r ffi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan hawlydd 3 mis, namyn diwrnod, o ddyddiad y digwyddiad cychwynnol, i ddod â'r hawliad i'r TC, ac felly hyd at 3 mis i wneud trefniadau i dalu'r ffi cychwyn. Ar gyfer hawliadau am dâl dileu swydd neu dâl cyfartal, mae gan hawlwyr 6 mis i ddod â hawliad i'r TC. Ar ben hynny, pan fydd anghydfod yn cyrraedd ACAS o fewn y terfyn amser, bydd gan hawlwyr uchafswm o 6 wythnos i gymryd rhan mewn cymodi cynnar, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y terfyn amser o 3 neu 6 mis ar gyfer cyflwyno'r hawliad yn cael ei oedi.[11] Dan Reolau Gweithdrefnol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 2013, gall hawlwyr hefyd ofyn am estyniad amser drwy wneud cais i'r tribiwnlys. Os yw hawlydd yn aflwyddiannus yn y TC ac yn ceisio dwyn apêl yn erbyn penderfyniad, mae ganddo 42 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad ato; neu (lle na roddodd y tribiwnlys resymau yn y gwrandawiad, a gofynnodd yr hawlydd am resymau o fewn y terfyn amser o 14

[10] Dechreuodd y 4% arall o achosion y tu allan i'r cyfnod pan oedd angen ffioedd.

[11] Ar ôl cymryd rhan mewn cymodi cynnar, mae hawlwyr yn derbyn tystysgrif cymodi cynnar ac mae ganddynt o leiaf 1 mis o'r dyddiad y'i derbynnir i wneud hawliad i'r TC. Gan fod yr isafswm o 1 mis yn rhedeg ochr yn ochr â'r amser sydd gan hawlydd ar ôl ar eu terfyn amser o 3 neu 6 mis, mae'n rhoi amser ychwanegol i hawlwyr a oedd â llai nag 1 mis yn weddill ar eu hawliad pan wnaethant ddechrau'r broses cymodi cynnar.

diwrnod) 42 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd y rhesymau dros y penderfyniad atynt. Os oes rheswm da dros gyflwyno apêl ar ôl y dyddiad cau, gall hawlwyr ofyn i’r TAC am ystyried eu hapêl. O ganlyniad, mae’n rhesymol tybio y dylai’r amser a roddir i hawlwyr ddod â’u hachos i TC, neu apêl i’r TAC, fod yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion i’w galluogi i dalu ffi.

## Cymesuredd

55. Cymesuredd yw’r egwyddor sy’n golygu y dylai cost y ffi fod yn gymesur â’r rhwymedi sy’n cael ei geisio, er mwyn osgoi mynd ar drywydd hawliad sy’n afresymol ac yn ddiwerth. Ynghyd â'r mater o fforddiadwyedd, roedd cymesuredd hefyd yn rhan o ddyfarniad 2017 y Goruchaf Lys lle nodwyd bod y ffioedd blaenorol yn cael eu gosod ar lefel mor uchel fel y gallai fynd y tu hwnt i werth y rhwymedi a geisir gan hawlwyr mewn llawer o achosion.

56. Wrth ddatblygu’r cynnig hwn, archwiliwyd cymesuredd mewn perthynas â’r costau a wynebir gan unigolion sy’n cyflwyno hawliad i’r TC. Dibynnwyd ar adroddiadau Arolygon o Geisiadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (SETA) 2013 a 2018 i ddadansoddi fforddiadwyedd ffioedd. [12]

57. Mae'r mater o gymesuredd yn arbennig o ddifrifol yn y TC oherwydd yr ystod eang o rwymedïau sydd ar gael i hawlwyr ac sy’n cael eu ceisio ganddynt. Canfu adroddiad SETA 2018 fod 90% o hawlwyr a oedd wedi setlo neu a oedd yn llwyddiannus mewn gwrandawiad tribiwnlys wedi cael iawndal ariannol gyda gwerth canolrif o £5,000, cynnydd o £2,500 yn 2013[13]. Mae hyn yn awgrymu y byddai hawlwyr sydd â hawliadau teilwng fel arfer yn disgwyl i’r iawndal fod yn fwy na’u ffioedd. Fodd bynnag, datblygwyd y ffioedd cymedrol a gynhigiwyd yn yr ymgynghoriad hwn gan ystyried hawlwyr a allai hefyd ddod i’r TC yn gofyn am ddyfarniadau gwerth isel neu anariannol. O ran dyfarniadau gwerth isel, dangosodd adroddiad SETA 2013 fod 5% o’r hawlwyr hynny a lwyddodd i gael setliad ariannol wedi setlo am £200 neu lai, gyda 2% o’r hawliadau wedi’u setlo am £100 neu lai. O ganlyniad, mae lefel arfaethedig y ffi wedi’i gosod ar lefel isel er mwyn peidio â gwneud hawliadau gwerth isel neu anariannol yn ddiwerth.

58. Roedd adroddiad SETA 2018 wedi canfod, lle’r oedd costau personol wedi codi wrth gyflwyno hawliad i’r TC, eu bod o werth tebyg i’r ffioedd arfaethedig. Roedd 33% wedi wynebu costau cyfathrebu gyda gwerth canolrifol o £50, a 36% wedi arwain at gostau teithio gyda gwerth canolrif o £60.

## Symlrwydd

[12] Defnyddiwyd y ddau arolwg oherwydd fod yr arolwg diweddaraf yn 2018 wedi cael ei gynnal pan oedd y drefn ffioedd flaenorol ar waith, a allai sgiwio nodweddion y rheini sy’n gwneud cais i’r TC.

[13] Arolwg Ceisiadau’r Tribiwnlys Cyflogaeth 2013

59. Rydym o’r farn y dylai ffioedd TC a TAC helpu i gyfrannu at gostau rhedeg y tribiwnlysoedd ar yr un pryd â sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn seiliedig ar system ffioedd glir a thryloyw. Wrth ddylunio’r cynnig hwn, rhoddwyd llawer o ystyriaeth i daro’r cydbwysedd cywir rhwng y ddwy elfen hyn. O ganlyniad, ar y naill law, rydym wedi datblygu ffioedd yn seiliedig ar egwyddorion fforddiadwyedd a chymesuredd a esbonnir uchod, ochr yn ochr ag ystyried y cyllid ar gyfer y TC a’r TAC o tua £80m y flwyddyn. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau y gall ffioedd adennill rhan o gostau rhedeg y gwasanaeth heb or-adennill. Ar y llaw arall, rydym wedi cyfyngu ein cynnig i un math o ffi ar y cam TC ac un math o ffi ar gam TAC. Mae gan y ffioedd arfaethedig drothwyon clir a phenodol iawn sy’n gysylltiedig â chamau penodol hawliad neu apêl. Mae hyn er mwyn i ddefnyddwyr gael yr hyder a’r tawelwch meddwl o wybod yn union faint y bydd hawliad yn ei gostio, ac ar ba bwynt y bydd disgwyl iddynt dalu’r ffi. Ochr yn ochr â bod o fudd i’r defnyddiwr, mae strwythur ffioedd syml sy’n hawdd ei weinyddu hefyd o fudd i GLlTEF ac, o ganlyniad i hynny, i’r trethdalwr.

## Effaith y newidiadau

60. Ar sail niferoedd 2022/23 ac o ystyried dileadau ffioedd, rydym yn amcangyfrif y gallai’r ffioedd arfaethedig gynhyrchu £1.3m-£1.7m y flwyddyn o 2025/26 ymlaen, gydag amcangyfrif incwm o £0.6m-£0.7m rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025. Er nad ydym yn bwriadu effeithio ar y galw drwy’r cynigion hyn, mae amcangyfrifon incwm yn sensitif i niferoedd ac mae’n anodd gwybod sut y gallai cyflwyno ffi, ynghyd â ffactorau eraill, effeithio ar nifer y ceisiadau i’r TC. O ganlyniad, defnyddiwyd gostyngiad o 20% i’r niferoedd i gyfrifo’r amcangyfrif incwm is. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch faint yn union o hawlwyr fyddai’n derbyn dilead ffi. Rydym wedi tybio y bydd 12% o incwm ffi’r hawlydd unigol a 4% o incwm ffioedd aml-hawlwyr yn cael eu dileu o dan y cynllun HwF. Bydd pŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd hefyd ar gael lle byddai talu ffi yn arwain at galedi ariannol neu galedi arall gormodol. Mae penderfyniadau’n seiliedig ar rinweddau pob cais unigol drwy ystyried incwm, cyfalaf gwario, gwariant neu amgylchiadau arbennig eraill yr ymgeisydd. Mae’n cynnig mesur diogelu ychwanegol a fydd yn diogelu mynediad at gyfiawnder i’r rheini sydd heb unrhyw fodd gwario i gychwyn achos neu ymateb i achos.

61. Ynghyd â’r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith sy’n amlinellu effaith y newid arfaethedig.

## Cyfnod ymgynghori

62. Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar y cynnig i gyflwyno ffioedd cymedrol yn y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a’r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys ffi cychwyn o £55 sy’n daladwy gan yr hawlydd wrth wneud hawliad i’r TC, a ffi apelio o £55 sy’n daladwy gan yr apelydd wrth wneud cais i apelio yn erbyn penderfyniad gan y TC. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 29 Ionawr 2024 am gyfnod o 8 wythnos, gan ddod i ben ar 25 Mawrth 2024.

63. Bydd y papur ymateb yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn GOV.UK. Yn ogystal, bydd copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at y farnwriaeth.

64. Croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â safbwyntiau ar y testun yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg

## Asesiad effaith

65. Mae Asesiad Effaith ffurfiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn. Gellir dod o hyd iddo yn: (insert IA link)

66. Mae’r asesiad effaith yn dangos y bydd cyflwyno ffioedd TC a TAC yn effeithio’n bennaf ar ddefnyddwyr y TC a’r TAC. Dangosir rhestr o’r prif grwpiau yr effeithir arnynt isod:

- Hawlwyr TC;
- Apelwyr TAC;
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF) - sy’n gweithredu gwasanaethau’r TC a’r TAC;
- Trethdalwyr – sy’n rhoi cymhorthdal i GLlTEF (gan fod incwm cyffredinol GLlTEF yn is na’i gostau cyffredinol) ac ACAS (gan fod y rhan fwyaf o’u cyllid yn cael ei ddarparu gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol);
- Darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a’r sector cynghori – sy’n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr GLlTEF; ac
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – sy’n noddi GLlTEF.

67. Mae’r cynnig yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i GLlTEF oherwydd newidiadau i systemau TG, canllawiau i staff a chanllawiau cyhoeddus.

## Cydraddoldeb

68. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, mae’n ofynnol i’r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygiadau polisi, ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldeb. Yn gryno, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd cydraddoldeb roi sylw i’r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan y Ddeddf;

- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu; a

- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

69. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

70. Mae Datganiad Cydraddoldeb ffurfiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn. (insert link)

## Yr Iaith Gymraeg

71. Byddai’r cynnig hwn, pe bai’n cael ei weithredu, hefyd yn effeithio ar y rheini sy’n siarad Cymraeg. Mae’r cynnig hwn yn cynnwys newidiadau i ffioedd sydd hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr y llysoedd sy’n siarad Cymraeg, er na ddylai amharu ar eu dealltwriaeth o’r ffioedd yn anghymesur.

72. Mae fersiwn Gymraeg o’r ddogfen hon ar gael yn: (insert link). Darperir copi Cymraeg o’r Asesiad Effaith a’r Datganiad Cydraddoldeb ar gais.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i’r cwestiynau canlynol sydd wedi’u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

Fel y nodir uchod, rydym yn cynnig ffi o £55 ar gyfer hawlwyr, gan gynnwys cael yr un ffi cychwyn ar gyfer materion lle mae mwy nag un hawlydd.

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â lefel gymedrol ffi cychwyn yr hawlydd arfaethedig o £55, gan gynnwys lle gallai fod nifer o hawlwyr, er mwyn sicrhau strwythur ffioedd syml? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Rydym yn cynnig cyflwyno ffi o £55 sy’n daladwy gan yr apelydd wrth gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad gan y TC. Lle mae nifer o benderfyniadau TC yn cael eu gwneud, mae ffi o £55 yn daladwy ar gyfer pob un o’r penderfyniadau hynny.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi’n cytuno â lefel gymedrol ffi apêl arfaethedig y TAC? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Y tair egwyddor sy’n sail i’r cynnig hwn yw fforddiadwyedd, cymesuredd a symlrwydd. Mae’r rhain yn sicrhau y gall defnyddwyr dalu cost y ffi yn gyffredinol; nad yw gwerth y ffi yn gyffredinol yn fwy na gwerth y rhwymedi a geisir; a bod eglurder ynghylch pa ffioedd sy’n daladwy a phryd.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi’n credu bod y cynnig hwn yn bodloni’r tair egwyddor a nodir uchod? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Wrth godi ffioedd, rydym yn ceisio adennill cost lawn y gwasanaeth a ddarperir, lle bo hynny’n bosibl. Gan gydnabod bod lefel y ffioedd a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn gymedrol a dim ond ychydig iawn o gyfraniad y mae defnyddwyr yn ei wneud, byddem yn croesawu barn ar y potensial i gyflwyno lefelau uwch o ffioedd TC a TAC. Byddai hyn yn helpu i gynyddu’r broses o adfer costau, yn cryfhau ein gallu i gefnogi gwasanaeth TC effeithlon ac effeithiol yn well ac yn lleihau’r baich ariannol ar drethdalwyr ymhellach.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi’n credu y gellid codi lefel uwch o ffioedd yn y TC a/neu’r TAC? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Fel yr esboniwyd uchod, rydym yn cynnig esemptiad rhag talu ffioedd ar gyfer rhai mathau o achosion mewn perthynas â thaliadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol.

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw fathau eraill o achosion lle mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol, a lle gallai fod achos dros eithrio unigolion rhag talu ffioedd? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Fel rhan o'n hasesiad o'r ymateb posibl i'r galw, byddem yn ddiolchgar am adborth gan ymgyngoreion ar bwysigrwydd cymharol gwahanol ffactorau yn y penderfyniad i fynd â hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n gallu rhannu eich adborth ar y gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar y penderfyniad i wneud hawliad TC, ac os felly, i ba raddau? Er enghraifft, gallai'r rhain fod yn ffi tribiwnlys, costau cysylltiedig eraill, y tebygolrwydd o lwyddiant, y tebygolrwydd o adennill dyfarniad ariannol, unrhyw gymhellion anariannol eraill fel unrhyw brofiad blaenorol o brosesau llys neu dribiwnlys ac ati. Rhowch resymau dros eich ateb.

Cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar gyfer y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir ystod a graddau yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r ffioedd arfaethedig a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

# Amdanoch chi

Rydym yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth amdanoch chi’ch hun yn yr adran hon.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o’r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw’r cwmni/sefydliad** (os yw’n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw’n wahanol i’r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi’n cynrychioli grŵp,** nodwch enw’r grŵp, a rhowch ddisgrifiad cryno o’r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 25 Mawrth 2024 at:

Fees Policy
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost:** MOJ Fees Policy mojfeespolicy@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio’r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Mae modd gwneud cais am fersiynau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at MOJ Fees Policy yn mojfeespolicy@Justice.gov.uk.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth

(sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o’r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Os nad ydych chi am i’ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe’ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft fel ‘perchennog busnes lleol’, ‘aelod o’r cyhoedd’).

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Fees Policy, Ministry of Justice yn: mojfeespolicy@justice.gov.uk